



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



Gwerthusiad Economaidd
o Fwyd a Diod Cymru – 2024

Gwerth Ychwanegol Gros (GYC)

Cafodd yr adroddiad hwn ei ddiweddarau ar 21 Tachwedd 2025 er mwyn cynnwys data ynghylch Gwerth Ychwanegol Gros (GYC). Nid oedd y data yma ar gael ynghynt gan fod y Swyddfa Ystadegau

Gwladol wedi sylwi ar broblem gyda'r system a ddefnyddiwyd i gasglu a phrosesu data'r Arolwg Busnes Blynyddol ar gyfer 2023. Mae'r broblem hon bellach wedi'i datrys.

Sector Sylfaen Bwyd

Mae Sector Sylfaen Bwyd Cymru'n cwmpasu busnesau sy'n cynhyrchu, prosesu, gweithgynhyrchu a chyfanwerthu bwyd a diod, gan gynnwys busnesau eilaidd sydd eu hangen yn y diwydiant bwyd a diod¹.

Y sector Sylfaen Bwyd yw prif ffocws gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion Gweledigaeth Strategol Diwydiant Bwyd a Diod Cymru².

Yn 2024 fe welodd y sector gynnydd ers 2023, gyda'i drosiant yn cynyddu £945m (10%) o £9.3bn i £10.2bn. Rhai is-sectorau fel llaeth a Chyfanwerthu sydd i gyfrif am y cynnydd. Ar y llaw arall, gwelwyd gostyngiad yn nhrosiant rhai is-sectorau fel Cig a Chynhyrchion Cig. Byddwn yn trafod yr is-sectorau hyn ymhellach yn nes ymlaen yn y gwerthusiad hwn. Dros y tymor hwy, mae trosiant y sector wedi tyfu, i fyny £2.0bn (25%) o £8.2bn yn 2019. Cynyddodd GYC Sector Sylfaen Bwyd Cymru 9% rhwng 2022 a 2023 (y data diweddaraf), o £2.4bn i £2.6bn.


Roedd 1,533 o unedau busnes lleol yn y sector yn 2024, 154 uned yn llai na'r flwyddyn cynt ond

cynnydd o 129 ers 2019. Cafodd 73% o'r unedau busnes yn y sector yn 2024 eu categorïddio fel rhai Micro, 2% yn llai nag yn 2023. Mae hyn yn debyg i wledydd eraill y DU, gyda 75% yn Lloegr, 70% yng Ngogledd Iwerddon a 67% yn yr Alban yn ficrofusnesau.

O ran unedau busnes eraill y sector yng Nghymru, roedd 17% yn fusnesau bach, 8% yn rhai canolig a 2% yn fusnesau mawr. Roedd gan 98 (8%) o fusnesau yn y sector yng Nghymru drosiant o fwy na £10m yn 2024.

Roedd y sector yn cyflogi 40,000 o bobl yn 2023, 7% yn fwy na'r 37,500 yn 2022. Roedd 90% o weithwyr cyflog y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Cyflog canolrifol y sector yng Nghymru oedd £27,633[r] yn 2024, cynnydd o £1,215[r] (5%[r]) ers 2023. Dros yr un cyfnod, cynyddodd enillion canolrifol y DU £2,483[r] (9%[r]), o £29,083[r] i £31,566. Roedd 73% o'r holl weithwyr yn Sector Sylfaen Bwyd Cymru yn ennill naill ai'r Cyflog Byw Gwirioneddol neu fwy yn 2024, gostyngiad o'r 81% yn 2023.

Trosiant fesul Sector 2019–2024, (£ miliwn)




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR).

1 Fel gweithgynhyrchwyr y cynhyrchion plastig a gwydr a ddefnyddir yn y system fwyd. Mae dadansoddiad llawn o gategoriâu'r sector sylfaen ar gael yn [The Food and Drink Foundation Sector Definition](#).
2 Mae Gweledigaeth Strategol Bwyd a Diod Cymru ar gael yn [Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021: Adeiladu ar ein llwyddiant](#).

Gwelwyd cynnydd o 154 yn nifer yr unedau busnes yn y sector o flwyddyn i flwyddyn, gyda'r mwyafrif (142) yn ficrofusnesau (llai na 10 o weithwyr). Yn y tymor hwy, mae 129 yn fwy o unedau busnes yn y sector, gyda 124 o unedau microfusnes newydd, 3 uned fusnes fach newydd (10 – 49 o weithwyr), a 2 uned fusnes ganolig newydd (50 – 240 o weithwyr). Bu 0 uned fusnes fawr newydd (250+ o weithwyr).

Yn 2024, roedd 34% o weithwyr y sector yn gweithio i fusnesau canolig eu maint a 48% yn gweithio i fusnesau mawr, gyda chwmnïau micro a bach â chyfran llawer llai o weithwyr y farchnad, sef dim ond 19%.


Nifer Unedau Lleol y Sector Sylfaen Bwyd fesul is-sector, 2024



Yr is-sector a welodd y twf mwyaf yn nifer ei unedau busnes rhwng 2019 a 2024 oedd Diodydd, gyda 33 o unedau newydd. Gwelodd yr is-sector hwn 8 uned fusnes fach newydd, y twf mwyaf o'r holl is-sectorau.

Yn 2024, roedd trosiant 73% (934) o fusnesau'r sector sylfaen bwyd yng Nghymru yn llai na £1m. Roedd y 73% hwn yn cyflogi 13% o'r gweithwyr ac yn cyfrif am 4% o droslant y sector. Roedd trosiant 8% (98) o fusnesau Cymreig y sector yn fwy na £10m. Roedd y busnesau hynny'n cyfrif am 69% o'r gweithwyr ac 83% o'r trosiant. Ceir manylion llawn busnesau, gweithwyr cyflog a throsiant fesul band trosiant yn Atodiad A.

Trosiant y Sector Sylfaen Bwyd fesul Is-sector (£miliwn), 2024



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR).

Tabl 1: Busnesau'r sector sylfaen bwyd yn ôl maint

Maint y busnes	Unedau busnes 2024	% o gyfanswm yr unedau	Trosiant 2024 (£m)	% o gyfanswm y trosiant	Cyflogaeth 2023 (000's)	% o gyfanswm y cyflogaeth
Mawr (250+)	28 [r]	1.8%	4,951	48.4% [r]	17.2	47.6% [r]
Canolig (50–249)	120	7.8%	3,497	34.2%	12.1	33.7% [r]
Bach (10–49)	267	17.4%	1,190	11.6%	4.1 [r]	11.4% [r]
Micro (0–9)	1,118	72.9% [r]	602	5.9%	2.6 [r]	7.3% [r]
Cyfanswm	1,533 [r]	100.0%	10,240	100.0%	36	100.0%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR). Daw ffigurau cyflogaeth y tabl hwn o'r IDBR, yn wahanol i'r ffigurau cyflogaeth a drafodir yn adrannau eraill yr adroddiad hwn, a ddaw o'r Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES). Argymhellir defnyddio data BRES yn lle'r IDBR wrth drafod ffigurau cyflogaeth, ond at ddibenion cymharu ffigurau cyflogaeth busnesau o faint gwahanol, defnyddir data cyflogaeth IDBR. Nid yw'r ffigurau cyflogaeth yn y tabl uchod yn cynnwys cyfran sylweddol o lafur amaethyddol. Mae'r categori 'Sectorau sy'n weddill' yn cynnwys Bwyd Parod i Anifeiliaid, Ffrwythau a Llysiau a Physgod a Chramenogion^[r].

[r] Mae'r marcwr yma'n dangos bod y rhif wedi'i ddiwygio Cafodd y diwygiadau hyn eu gwneud ar 21 Ionawr 2026.

Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod


Gwelwyd twf hefyd yng nghadwyn cyflenwi bwyd a diod Cymru yn 2024. Mae'r sector hwn yn cynnwys gweithgynhyrchu a phecynnu cysylltiedig, amaethyddiaeth a physgota, manwerthu a chyfanwerthu, ac arlwyyo dibreswyl. Roedd trosiant busnesau'r sector werth £27.0bn yn 2024, cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 10% o £24.6bn yn 2023. Cynyddodd allforion yn 2024 o'i gymharu â 2023, gan godi o £813m i £839m, cynnydd o 3% (£26m). Cynyddodd GYC cadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru 10% rhwng 2022 a 2023 (y data diweddaraf), o £6.4bn i £7.0bn.

Gwelwyd gostyngiad bychan o 2% yn nifer yr unedau busnes yn y sector, o 28,678 yn 2023 i 28,087 yn 2024. Roedd 85% o'r unedau busnes yn y sector yn ficrofusnesau yn 2024, yr un faint ag yn 2023. O'i chymharu â gwledydd eraill y DU, Cymru oedd â'r gyfran uchaf ond un o ficrofusnesau yn ei chadwyn cyflenwi bwyd a diod. Roedd gan Ogledd Iwerddon 89%, yr Alban 79% a Lloegr 78%.

Yn 2023 roedd y gadwyn gyflenwi'n cyflogi 223,500 o unigolion yng Nghymru – gostyngiad o 1% ers 2022 – gan gyfrif am 17% o holl weithlu'r wlad. Roedd 46% o weithwyr cyflog y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Enillion blyneddol canolrifol y sector yn 2024 oedd £18,971[r], i lawr 6%[r] ers 2023. Cyflog canolrifol y DU yn y sector oedd £22,065 yn 2024, cynnydd o 11%[r] ers y flwyddyn cynt. Roedd 50% o'r holl weithwyr yn y gadwyn cyflenwi bwyd a diod yng Nghymru yn 2024 yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol neu fwy, i lawr o 64% yn 2023.

Parhaodd cynhyrchion sector bwyd a diod Cymru i ennill wobrau, gan ennill 163 o wobrau Great Taste yn 2024, i lawr 79 o'r 242 yn 2023. Roedd gan Gymru 24 o enwau bwyd gwarchodedig ym mis Mawrth 2025. Mae hyn 4 yn fwy nag yn 2023.

Nifer y Gweithwyr ym Mhrif Sectorau'r Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod 2023



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES).

Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod

Gwelodd sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod Cymru yn 2024 gynnydd o £318.7m (5%) yn ei drosiant ers 2023, gan gynyddu o £6.0bn i £6.3bn. £1.9bn oedd GYC y sector yn 2023, cynnydd o 11% o'r GYC o £1.7bn yn 2022.

Roedd y sector yn cyflogi 26,000 yng Nghymru yn 2023, yr un faint ag yn 2022. Roedd 90% o'r gweithwyr cyflog yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. £26,240[r] oedd cyflog canolrifol y sector yn 2024, £1,015[r] yn fwy na'r £25,225[r] y flwyddyn cynt. Yn 2024, roedd 66% o weithwyr y sector yn ennill y cyflog byw, i lawr o 78% yn 2023.


Roedd 663 o unedau busnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn 2024, i lawr 18 o 681 yn 2023.

Roedd 69% o'r 663 o unedau busnesau yn ficrofusnesau (17% yn fach, 10% yn ganolig, 3% yn fawr), yr un faint ag yn Lloegr oedd hefyd â 69%. 63% oedd y ganran yng Ngogledd Iwerddon a 61% yn yr Alban. Roedd trosiant 49 (9%) o fusnesau yn y sector yng Nghymru yn fwy na £10m yn 2024.

Yn 2024 roedd 12% o fusnesau'r sector yn fusnesau newydd, sef 70 o ran nifer, i lawr o 13% yn 2023. Roedd 48% o fusnesau'r sector wedi goroesi 5 mlynedd rhwng 2019 a 2024, cynnydd o'r gyfradd oroesi o 45% rhwng 2018-2023.

Dros y tymor hwy, mae'r sector wedi gweld tyfiant cryf; cynyddodd ei drosiant £1.1bn (21%) o £5.2bn yn 2019 i £6.3bn yn 2024, a gwelwyd cynnydd o 10% yn y GYC rhwng 2019 a 2023 (o £1.8bn i £1.9bn). Yn ogystal, cynyddodd y cyflog canolrifol £4,669[r] (22%[r]) rhwng 2019 a 2024, o £21,571 i £26,240[r], mae hyn yn llai na chynnydd y DU o £7,074 (29%) dros yr un cyfnod.

Trosiant fesul is-sector 2019 – 2024 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR).

Cig a Chynhyrchion Cig

£1.2bn oedd trosiant sector Cig a Chynhyrchion Cig Cymru yn 2024, gostyngiad sylweddol o 31% o'r trosiant o £1.7bn yn 2023.

Roedd y sector yn cyflogi 5,000 o bobl yn 2023, i lawr 9% o 5,500 yn 2022. Roedd 95% o'r gweithwyr a gyflogwyd yn y sector yn 2023 yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth (FTE). £23,060[r] oedd cyflog canolrifol y sector yn 2024, gostyngiad o 4%[r] ers y flwyddyn cynt.

Roedd 60 o unedau busnes yn y sector yn 2024, gostyngiad o'r 66 yn 2023. Hyd at 31 Rhagfyr 2024, roedd 37 o sefydliadau wedi'u cymeradwyo i drin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion cig coch a 21 i drin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion cig dofednod. Mae hyn ychydig yn is na'r flwyddyn cynt, pan roedd 38 o fusnesau cig coch a 21 o fusnesau cig dofednod.

£293m oedd cyfanswm gwerth allforion cig a chynhyrchion cig yn 2024. Mae hyn yn cynnwys £88m o allforion anifeiliaid byw, a £204m o allforion cynhyrchion cig. Roedd hyn yn 5% yn fwy na gwerth allforion y flwyddyn cynt o £280m. Gwelwyd cynnydd o £9m yn allforion anifeiliaid byw, a chynnydd o £4m [r] mewn cynhyrchion cig o flwyddyn i flwyddyn.

Yn ôl Hybu Cig Cymru (HCC), yn 2024 roedd allforion cig defaid o Gymru yn werth tua £198m, ac yn werth amcangyfrif o £202m o gynnwys allforion offal. O ran gwerth, cafodd tua 97% (£192m) o'r allforion cig defaid eu hallforio i'r UE. Amcangyfrifwyd bod allforion cig eidion Cymru yn 2024 yn werth £79m, gyda thua 90% (£71m) yn cael eu hallforio i'r UE.

Gwelwyd cynnydd o 4% yn 2024 i £1.0bn yn y gwariant manwerthu ar gig yng Nghymru o'i gymharu â 2023. Fel cymhariaeth, gwelodd Prydain Fawr hefyd gynnydd o 4%.

Yn y sector manwerthu, prydau parod o'r oergell oedd y categori cig â'r gyfran uchaf o hyd, gan gynyddu o 18% i 19%. Y categorïau nesaf yw dofednod ffres ac yna gigoedd wedi'u coginio. Mae'r tri gyda'i gilydd yn cyfrif am 45% o'r gwariant manwerthu ar gig.



— “ —
Gwelwyd cynnydd o 4% yn 2024
i £1.0bn yn y gwariant manwerthu
ar gig yng Nghymru
o'i gymharu â 2023.
— ” —

Diodydd

£1.1bn oedd trosiant y sector diodydd yng Nghymru yn 2024, gostyngiad o £174m (13%) o £1.3bn yn y flwyddyn cynt. Dros y tymor hwy, nid yw trosiant y sector wedi gweld fawr o dwf, gan gynyddu £13m (1%) o £1.1bn yn 2019. Mae'r sector diodydd yng Nghymru wedi pendilio'n fawr yn ei drosiant ers 2019 gyda newid cymedrig o £319m o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd y sector yn cyflogi 2,500 o bobl yn 2023, cynnydd o 25% o 2,000 yn 2022. Roedd 89% o'r gweithwyr yn y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth (FTE). Cyflog canolrifol y sector oedd £29,924 yn 2022, sy'n 9.5% yn is o'i gymharu â 2020. Cyflog canolrifol y sector yn y DU yn 2024 oedd £36,910, gostyngiad o 1% o'r flwyddyn cynt. Nid oes modd datgelu ffigurau ar gyfer cyflogau canolrifol yng Nghymru yn 2024, 2023 a 2021 gan fod maint y sampl yn fach.

Roedd 154 o unedau busnes yn y sector yn 2024, gostyngiad o'r 155 yn 2023. Roedd 81% o'r unedau busnes yn y sector yn ficrofusnesau, cynnydd o 1 pwynt canran o'r flwyddyn cynt.

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar ddiodydd yng Nghymru oedd £1.2bn yn 2024, 0.3% yn fwy nag yn 2023. Fel cymhariaeth, gwelodd gwledydd Prydain Fawr gynydd o flwyddyn i flwyddyn o 2%.

Gwerthiant cwrw, gwinoedd a gwirodydd oedd yn gyfrifol am ryw dair rhan o bump (60%) o wariant manwerthu Cymru, a gwin oedd â'r gyfran fwyaf o'r tri gyda 26%. Diodydd alcoholaidd wedi'u blasu (FAB) welodd y cynnydd canrannol mwyaf yn y sector dros y flwyddyn, ond mae'r categori hwn yn parhau'n rhan fach o'r farchnad.



— “ —
Roedd y sector yn cyflogi 2,500
o bobl yn 2023, 25% yn fwy
na'r 2,000 yn 2022.

— ” —

Cynhyrchion Bwyd Eraill

Mae'r sector Cynhyrchion Bwyd Eraill yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu'r canlynol: siwgr, cocoa, siocled, melysion, te, coffi ac amnewidion coffi, condimentau a sesnin, prydau a seigiau parod, a pharatoadau bwyd homogenaidd a bwyd deietegol³.

£1.3bn oedd oedd trosiant y sector Cynhyrchion Bwyd Eraill yn 2024, cynnydd sylweddol o 58% o £839m yn 2023.

Roedd y sector yn cyflogi 7,000 o bobl yn 2023, gostyngiad o 7% o 7,500 yn 2022. Roedd bron holl weithwyr y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth yn 2023. £26,506[r] oedd cyflog canolrifol y sector yn 2023, i lawr 1%[r] o'r flwyddyn cynt. Dros yr un cyfnod, cynyddodd cyflog canolrifol y sector yn y DU 6%[r], o £26,061 i £27,629[r]. Nid oes modd datgelu'r ffigurau ynghylch cyflog canolrifol Cymru ar gyfer 2024 yn sgil un ai maint bach y sampl neu oherwydd bod gormod o amrywiaeth ac felly nid ydynt yn addas i'w datgelu.

Roedd 127 o unedau busnes yn y sector yn 2024, yr un faint ag yn 2023. Roedd 69% o'r busnesau yn ficrofusnesau, yr un faint ag yn 2023.

Cynyddodd gwariant manwerthu Cymru ar Felysion yn y Cartref 9% rhwng 2023 a 2024, cynnydd o £281m i £306m. Bu 6% yn fwy o wariant ar De a Choffi ym marchnad fanwerthu Cymru, cynnydd o £113m yn 2023 i £119m yn 2024. Gostyngodd y gwariant ar Sawsiau Bwrdd, Condimentau a Phicl 2% o flwyddyn i flwyddyn, o £69m i £68m. Ar draws gwledydd Prydain Fawr, cynyddodd gwariant manwerthu ar Felysion yn y Cartref 9%, Te a Choffi 4% a Sawsiau Bwrdd, Condimentau a Phicl 1%.

Cynyddodd gwariant manwerthu ar Brydau Parod Oer yng Nghymru 10% o 2023 i 2024, o £180m i £199m. Gwelodd yr un categori gynnydd o 7% ar lefel Prydain Fawr.



— “ —
£1.3bn oedd trosiant y sector
Cynhyrchion Bwyd Eraill yn 2024,
cynnydd sylweddol o 58%
o £839m yn 2023.
— ” —

³ Mae paratoadau bwyd homogenaidd a bwyd deietegol yn cynnwys fformiwla babanod, llaeth dilynol, bwydydd heb glwten, bwydydd sodiwm isel a bwydydd diabetig.

Llaeth ac Wyau

£725m oedd trosiant sector llaeth Cymru yn 2024, 39% yn fwy na'r trosiant o £524m yn y flwyddyn cynt. Dyma drosiant uchaf y sector ers 2019, a welodd drosiant o £611m. Ers 2019, mae'r trosiant wedi cynyddu 19% [r].

Yn 2023 roedd y sector yn cyflogi 1,625 o bobl, 8% yn fwy na'r 1,500 yn 2022. Roedd 85% o'r rhai a gyflogwyd yn y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth, cynnydd o'r 83% yn y flwyddyn cynt. £34,185[r] oedd cyflog canolrifol y sector yn 2024, cynnydd o 31%[r] o'r £26,069[r] yn 2023. Roedd cyflog canolrifol y DU yn £35,324 yn 2024, i fyny 11%[r] o £31,754[r] yn 2023.

Yn 2024 roedd 66 o unedau busnes yn y sector, ychydig yn fwy na'r 63 yn y flwyddyn cynt. Roedd 62% o'r unedau busnes hyn yn ficrofusnesau, 1 pwynt canran yn llai nag yn 2023. Roedd 24% yn fusnesau bach, yn cyflogi 10 – 49 o bobl – 2 bwynt canran yn fwy na'r 22% yn 2023.

Hyd at 30 Rhagfyr 2024, roedd 109 o fusnesau wedi'u cymeradwyo i brosesu wyau neu gynhyrchion wyau, i fyny o 108 y flwyddyn cynt ac roedd 109 o fusnesau wedi'u cymeradwyo i brosesu llaeth amrwd neu gynnyrch llaeth, i lawr o 111 yn 2023.

Cwmpodd nifer y gwartheg godro (buchod 2+ oed â llo) yn 2024 i 251,300, i lawr o'r 254,700 yn y flwyddyn cynt. Cafodd 4.4m o ieir eu defnyddio yn 2024 i gynhyrchu wyau, 2% yn llai na'r 4.5m yn 2023.

Roedd gwariant manwerthu ar gynnyrch llaeth yn 2024 yn £627m, 1% yn fwy nag yn y flwyddyn cynt. Gwelwyd cynnydd o 1% yng ngwariant manwerthu Prydain Fawr ar gynhyrchion llaeth hefyd yn 2024 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Llaeth oedd â chyfran uchaf y gwariant yn y categori cynhyrchion llaeth o hyd gyda 35%, ond 'llaeth cyflas amgylchol (ambient)' welodd y twf mwyaf yn y categori gyda 34%.



— “ —
£725m oedd trosiant sector llaeth
Cymru yn 2024, 39% yn fwy
na'r trosiant o £524m
yn y flwyddyn cynt.

— ” —

Pobi

£496m oedd trosiant y sector pobi yng Nghymru yn 2024, 9% yn fwy na'r trosiant o £457m yn y flwyddyn cynt. Dros y tymor hwy, mae trosiant y sector wedi gostwng £64m (11%) o £560m yn 2019.

Roedd y sector yn cyflogi 6,000 o bobl yn 2023, yr un faint ag yn 2022. Roedd 83% o'r gweithwyr yn y sector yn gweithio'n amser llawn neu gyfwerth, i fyny o 82% yn y flwyddyn cynt.

Yn 2024 roedd 176 o unedau busnes yn y sector, gostyngiad o'r 182 o unedau yn y flwyddyn cynt. Roedd 70% o'r unedau busnes yn ficrofusnesau ac yn cyflogi llai na 10 o bobl, 3% yn llai na'r flwyddyn cynt.

£24,776[r] oedd cyflog canolrifol y sector yn 2024, 4%[r] yn uwch na'r ffigur o £23,864[r] yn 2023. Gwelwyd cynnydd yn y cyflog ar draws y DU hefyd, i £29,180 yn 2024, 8%[r] yn uwch na'r ffigur o £27,091[r] yn 2023.

£609m oedd y gwariant manwerthu yn y sector pobi yng Nghymru yn 2024, cynnydd o 3% o'i gymharu â 2023. 3% hefyd oedd y twf yn y farchnad gyfan ar draws Prydain Fawr hefyd. Nwyddau boreol oedd â chyfran uchaf y gwariant yn y farchnad yng Nghymru o hyd, sef 24%. Pwdinau Nadolig amgylchol welodd y twf mwyaf yn y sector pobi, gyda gwariant manwerthu yn cynyddu 38%, ond mae'r categori hwn yn parhau'n rhan fach o'r farchnad.



— “ —

£24,776[r] oedd cyflog canolrifol y sector yn 2024, 4%[r] yn uwch na'r ffigur o £23,864[r] yn 2023.

— ” —

Manwerthu a Chyfanwerthu

Roedd gan y diwydiant manwerthu drosiant o £10.1bn yn 2024, i fyny 5% o £9.7bn yn 2023.

Roedd y sector manwerthu yn cyflogi 58,000 o unigolion yn 2023, 9% yn llai na'r 63,500 oedd yn cael eu cyflogi yn y sector yn 2022. Roedd 27% o'r gweithwyr yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. Cyflog canolrifol y sector yn 2024 oedd £16,620[r], 11%[r] yn llai na'r £18,703[r] yn 2023. Cynyddodd cyflog canolrifol y sector ledled y DU gyfan 9%[r] yn 2024, o £15,899[r] i £17,399.

Roedd canran y gweithwyr amser llawn neu ei gyfwerth yn y sector wedi cynyddu i 27% yn 2023 o 25% yn 2022. Ym Mhrydain Fawr, roedd canran y gweithwyr amser llawn neu eu cyfwerth yn y sector yn 32% yn 2023, yr un faint ag yn 2022.

Yn 2024 roedd 4,091 o unedau busnes yn y sector, bron iawn yr un fath â'r 4,073 o unedau busnes yn 2023. Roedd 70% o'r unedau yn y sector yn microfusnesau yn 2024, yr un faint ag yn y flwyddyn cynt.

£7.2bn oedd cyfanswm y gwariant manwerthu ar nwyddau groser yn 2024, 3% o gynnydd, o £7.0bn yn y flwyddyn cynt. Gwelwyd cynnydd tebyg o 4% ar lefel Prydain Fawr hefyd, o £145bn i £150bn.

Tesco oedd i gyfrif am 29% o gyfran y gwariant yng Nghymru yn 2024, y mwyaf o'r holl archfarchnadoedd, gan gynyddu ei gyfran 0.3 pwynt canran ers 2023. Yn dilyn Tesco yr oedd Asda (13%), Aldi (10%), Morrisons (8%), a Lidl (7%) o ran cyfran y gwariant yng Nghymru.

Roedd gan y sector cyfanwerthu drosiant o £2.8bn yn 2024, cynnydd o 20% o'r £2.4bn yn 2023.

Roedd y sector cyfanwerthu yn cyflogi 5,500 o bobl yn 2023, 15% yn llai na'r 6,500 oedd yn gyflogedig yn 2022. Roedd 82% o'r gweithwyr yn y sector yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. £33,105[r] oedd cyflog canolrifol y sector cyfanwerthu bwyd yn 2024, cynnydd o 28%[r] ar ffigur 2023 o £25,934[r]. Ar draws y DU, cynyddodd cyflogau canolrifol y sector hefyd o flwyddyn i flwyddyn, 8%[r] o £28,808[r] yn 2023 i £31,082 yn 2024.



Roedd gan y sector cyfanwerthu drosiant o £2.8bn yn 2024, cynnydd o 20% o'r £2.4bn yn 2023.



Arlwyo

Mae'r sector arlwyo yn cynnwys pob arlwyo dibreswyl gan gynnwys bwytaï a chaffis, gweini bwyd, arlwywyr symudol, bwyd têt-awê ac arlwyo ar gyfer digwyddiadau.

Roedd gan y sector drosiant o £3.3bn [r] yn 2024, cynnydd sylweddol o 17% o £2.8bn yn 2023.

Roedd y sector yn cyflogi 89,500 o bobl yn 2023, i lawr 1% o 90,500 yn 2022. Roedd 34% o'r gweithwyr yn gweithio'n amser llawn neu ei gyfwerth. £11,692[r] oedd cyflog canolrifol y sector yn 2024, i fyny 6%[r] o £11,065[r] yn 2023. Cynyddodd cyflogau canolrifol ar lefel y DU hefyd, o £13,634[r] i £15,239[r] (12%) yn yr un cyfnod.

Yn 2024 roedd 8,946 o unedau busnes yn y sector, gostyngiad o 5% o'i gymharu â 2023, pan roedd 9,396 o unedau. Roedd 74% o'r unedau busnes yn y sector yn 2024 yn ficrofusnesau, yn cyflogi llai na 10 o bobl, 1% yn llai nag yn 2023.

Yn ôl yr Arolwg Costau Byw a Bwyd, gwariodd pobl Cymru £19.40 yr wythnos ar gyfartaledd ar wasanaethau arlwyo (bwytaï, prydau caffi, diodydd alcoholig o'r cartref a bwyd tecawê) rhwng y flwyddyn yn gorffen 2021 a'r flwyddyn yn gorffen 2023. Dyma'r swm isaf ond un o 4 gwlad y DU, gyda'r Alban yn gwario ar gyfartaledd £19.20, Lloegr yn gwario ar gyfartaledd £22.60 a Gogledd Iwerddon ar gyfartaledd yn gwario £28.70 dros yr un cyfnod.



— “ —
Roedd gan y sector drosiant
o £3.3bn [r] yn 2024, cynnydd
sylweddol o 17% o £2.8bn yn 2023.

— ” —

Atodiad A: Diwydiannau Bwyd a Diod Cymru – Ystadegau Ychwanegol

Trosiant Bwyd a Diod, Unedau Busnes a GYC Cymru a'r DU

Metrig	Cymru	DU	Cymru fel % o'r DU
--------	-------	----	--------------------

Sector Sylfaen Bwyd

Trosiant 2024	£10.2bn	£287.6bn	3.6%
Unedau Busnes 2024	1,533	40,755	3.8%
GYC 2023	£2.6bn	£60bn	4.4%


Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod

Trosiant 2024	£27.0bn	£667.3bn	4.0%
Unedau Busnes 2024	28,087	469,415	6.0%
GYC 2023	£7.0bn	£170.1bn	4.1%

Sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod

Trosiant 2024	£6.3bn	£131.3bn	4.8%
Unedau Busnes 2024	663	13,995	4.7%
GYC 2023	£1.9bn	£35.5bn	5.5%

Cyflogaeth yn ôl is-sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru, 2023



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES). Mae'r categori 'Sectorau sy'n weddill' yn cynnwys Bwyd Parod i Anifeiliaid, Ffrwythau a Llysiau a Physgod a Chramenogion.

Y Sector Sylfaen Bwyd: Twf Trosiant 2019–2024

Blwyddyn	Cymru			DU		
	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %
2019	£8.2bn	£0.64bn	8.5%	£228.6bn	£4.93bn	2.2%
2020	£7.9bn	-£0.27bn	-3.2%	£232.7bn	£4.11bn	1.8%
2021	£8.5bn	£0.56bn	7.0%	£233.6bn	£0.88bn	0.4%
2022	£8.1bn	-£0.4bn	-4.7%	£230.4bn	-£3.19bn	-1.4%
2023	£9.3bn	£1.21bn	14.9%	£245bn	£14.57bn	6.3%
2024	£10.2bn	£0.95bn	10.2%	£287.6bn	£42.63bn	17.4%

Y Gadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod: Twf Trosiant 2019–2024

Blwyddyn	Cymru			DU		
	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %
2019	£22.1bn	£0.76bn	3.6%	£548.9bn	£10.64bn	2.0%
2020	£22.4bn	£0.27bn	1.2%	£562.8bn	£13.89bn	2.5%
2021	£23bn	£0.64bn	2.9%	£569.8bn	£7.08bn	1.3%
2022	£22.3bn	-£0.69bn	-3.0%	£553.6bn	-£16.29bn	-2.9%
2023	£24.6bn	£2.29bn	10.2%	£588bn	£34.42bn	6.2%
2024	£27bn	£2.36bn	9.6%	£667.3bn	£79.36bn	13.5%

Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod: Twf Trosiant 2019–2024

Blwyddyn	Cymru			DU		
	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %
2019	£5.2bn	£0.39bn	8.1%	£104.5bn	£4.68bn	4.7%
2020	£4.9bn	-£0.39bn	-7.4%	£102.7bn	-£1.72bn	-1.6%
2021	£5.3bn	£0.5bn	10.2%	£104.2bn	£1.44bn	1.4%
2022	£5.1bn	-£0.21bn	-4.0%	£107.3bn	£3.12bn	3.0%
2023	£6bn	£0.88bn	17.1%	£112.9bn	£5.62bn	5.2%
2024	£6.3bn	£0.32bn [r]	5.3%	£131.3bn	£18.41bn	16.3%

Dadansoddiad o ddiwydiant y Sector Sylfaen Bwyd –
Busnesau sydd â'u pencadlys yng Nghymru

Blwyddyn	Band Maint Trosiant	Nifer Endidau	Nifer Cyflogeion	Trosiant (£m)
2023	Cyfanswm	1,438	22,926	5,146
	a. <£1m	1,112	3,545	229
	b. £1m - £2m	107	1,040	153
	c. £2m - £3m	25	359	61
	d. £3m - £4m	28	573	98
	e. £4m - £5m	25	611	111
	f. £5m - £10m	52	1,732	357
	g. >£10m	89	15,066	4,138
2024	Cyfanswm	1,276	22,234	5,698
	a. <£1m	934	2,873	212
	b. £1m - £2m	103	748	140
	c. £2m - £3m	43	499	102
	d. £3m - £4m	28	606	97
	e. £4m - £5m	17	410	75
	f. £5m - £10m	53	1,731	367
	g. >£10m	98	15,367	4,706

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR).

Atodiad B: Nodiadau ar y Fethodoleg

Cafodd y data yn y gwerthusiad hwn eu crynhoi rhwng Rhagfyr 2024 a Gorffennaf 2025. Yr ystadegau a gyflwynir yn y gwerthusiad hwn oedd y rhai diweddaraf a oedd ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad

Dull newydd ar gyfer cyfri'r GYC:

Mae'r holl ffigurau GYC (Gwerth Ychwanegol Gros) a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn yn amcangyfrifon sy'n seiliedig set ddata'r Arolwg Blynyddol o Fusnesau (ABS) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'r Cyfrifon GYC Rhanbarthol (wedi'u mantoli) yn ôl diwydiant. Cyfrifir cyfran y GYC trwy ddefnyddio data ABS, hynny ar lefel cod SIC 2 ddigid y rhoddir cyfrif amdano gan y codau SIC 5 digid a ddefnyddir i ddiffinio sector bwyd penodol. Er enghraifft, os bydd dau allan o ddeg cod SIC 5 digid o fewn cod SIC 2 ddigid lefel uwch yn cael eu defnyddio mewn diffiniad o sector bwyd a bod y codau hyn yn cyfrif am 75% o gyfanswm gwerth y cod SIC 2 ddigid, yna 75% fydd y gyfran honno. Yna lluosir y gyfran hon â GYC cod SIC 2 ddigid yn y tabl o Gyfrifon Rhanbarthol i amcangyfrif cyfran y GYC a ddaw o sector bwyd penodol.

Mae'r codau SIC 5 digid a ddefnyddir i ddiffinio'r Sector Sylfaen Bwyd, yn y Diffiniad o'r Sector Sylfaen Bwyd a Diod. Yn sgil newid y fethodoleg, nid oes diben cymharu'r gwerthoedd newydd hyn â rhai blynyddoedd cynt a dylid eu defnyddio ar wahân i'w gilydd am y gallai unrhyw gynnydd neu ostyngiad fod yn ganlyniad i'r fethodoleg newydd, heb fod yn newid go iawn.

Diffinnir GYC Bwyd a Diod Cymru gan ddefnyddio'r codau SIC07 canlynol. Mae hyn wedi newid ers blynyddoedd blaenorol i ganolbwyntio ar y Sector Sylfaen Bwyd:

- 10: Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd.**
- 11–12: Gweithgynhyrchu diodydd a chynhyrchion tybaco.**
- 17: Gweithgynhyrchu cynhyrchion papur.**
- 22: Gweithgynhyrchu cynhyrchion rwber a phlastig.**
- 23: Gweithgynhyrchu cynhyrchion mwynol anfetelaidd.**
- 25: Gweithgynhyrchu cynhyrchion metel wedi'u ffabrigadu.**
- 28: Gweithgynhyrchu peiriannau ac offer.**
- 46: Masnach gyfanwerthu.**
- 82: Gweinyddu swyddfeydd a gweithgareddau cymorth busnes..**

Ffynonellau

Data	Ffynhonnell y Data	Y flwyddyn ddiweddaraf a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad
Cyflogaeth	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES)	2023
Ystadegau Busnes (unedau lleol, nifer yr endidau, trosiant)	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR).	2024
Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchodedig	Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchodedig - GOV.UK (www.gov.uk)	2025
Gwerth Ychwanegol Gros (GYC)	Arolwg Blynnyddol o Fusnesau yr ONS Gwerth Ychwanegol Gros (GYC) Rhanbarthol yr ONS yn ôl Diwydiant	2023
Enillion	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)	2024
Busnesau Cymeradwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd	Busnesau Bwyd Cymeradwy: https://data.food.gov.uk/catalog/datasets/1e61736a-2a1a-4c6a-b8b1-e45912ebc8e3	2024
Gwobrau Great Taste	https://greattasteawards.co.uk/	2024
Gwariant Manwerthu	Data Kantar WorldPanel	2024
Gwerth Allforion	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Fasnach Ranbarthol mewn Nwyddau	2024
Gwerthoedd Allforion cig oen a chig eidion Cymru	Amcangyfrifon gan Hybu Cig Cymru (HCC)	2024
Gwariant cyfartalog ar wasanaethau arlwyo	Arolwg Costau Byw a Bwyd	2023

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:
FoodDivisionalBusiness@gov.wales neu economic.stats@gov.wales